Cynllun Buddion Ymddeol Staff Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Datganiad Gweithredu
31 Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon yn adolygu i ba raddau mae Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol Staff Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ("y Cynllun") wedi arfer yr hawliau yn gywir (gan gynnwys pleidleisio), cynnal gweithgareddau ymgysylltu a monitro'r rheolwr buddsoddi (y Polisïau Stiwardiaeth) yn ystod blwyddyn gyfrifo'r Cynllun (a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023) fel y nodir yn Natganiad Egwyddorion Buddsoddi ("SIP") y Cynllun dyddiedig Awst 2021, sef yr SIP a oedd yn ei le ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun.

Ar ben hynny, mae'r adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau o ymddygiad pleidleisio a'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

1. Polisi'r Ymddiriedolwyr ar faterion ymgysylltu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n eu hwynebu o ran dylanwadu ar newid oherwydd maint a natur buddsoddiadau'r Cynllun ac o ystyried bod y Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfunol. Ar ben hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi nad oes modd teilwra strategaeth fuddsoddi a phenderfyniadau'r rheolwr buddsoddi i bolisïau'r Ymddiriedolwyr, ac nid yw'r rheolwr yn cael ei dalu'n uniongyrchol ar y sail hon. Yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cynghorwyr, sy'n pennu'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun ac yn dewis a dethol rheolwyr ac arian priodol i weithredu'r strategaeth.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cymell y rheolwr buddsoddi i ymwneud â rhoddwyr dyled neu ecwiti i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwr buddsoddi gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath fel sy'n briodol ac angenrheidiol i gyflawni amcanion buddsoddi'r gronfa. Mae'r arian a ddefnyddir fel arfer yn cynnwys amcan y disgwylir iddo arwain at adenillion cadarnhaol dros y tymor canolig i gyfnod hwy. Felly, disgwylir i'r rheolwr buddsoddi ymgysylltu â rhoddwr dyled neu ecwiti er mwyn targedu creu gwerth tymor canolig i'r tymor hir. Dros y cyfnod, bu'r Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad cronfeydd y Cynllun trwy adroddiadau buddsoddi a baratowyd gan EdenTree Investment Management ("EdenTree").

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen i fod yn stiward cyfrifol ac arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau'r Cynllun mewn modd cyfrifol. O ran buddsoddiadau ecwiti, mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi'r hawl/disgresiwn llawn i'r rheolwr buddsoddi penodedig mewn perthynas â stiwardiaeth buddsoddiadau.

Felly, yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Cynllun fuddsoddi mewn ecwitïau drwy'r gronfa ganlynol:

- EdenTree Responsible & Sustainable Global Equity Fund

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu polisïau a phrosesau pleidleisio'r rheolwr (gan gynnwys y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd dros y cyfnod) a datganiad o wrthdaro buddiannau'r rheolwr, ac nid oes ganddynt unrhyw bryderon. Pe bai unrhyw bryderon yn codi, byddai'r Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheolwr buddsoddi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu eu bod wedi dilyn eu polisi ymgysylltu (fel y manylir yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi) dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.

2. Polisïau pleidleisio'r rheolwr

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Cynllun fuddsoddi mewn ecwitïau (sydd â hawliau pleidleisio) gydag EdenTree (sy'n rheoli'r gwarantau sylfaenol yn y cronfeydd y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt).

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo hawliau pleidleisio i'r rheolwr. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr hawliau cyfreithiol i bleidleisiau sylfaenol yr arian. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ymddygiad pleidleisio'r rheolwr a byddent yn codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwr. Byddai achosion niferus o anghytuno yn arwain at weld yr Ymddiriedolwyr yn adolygu ac o bosib yn terfynu'r gronfa pe bai'r Ymddiriedolwyr yn teimlo nad oedd credoau'r rheolwr yn cyd-fynd â rhai'r Cynllun.

Mae EdenTree yn cefnogi'r egwyddor o bleidleisio ystyriol, ac yn credu bod gan bleidlais trwy ddirprwy werth economaidd ac o safbwynt stiwardiaeth, a bod gan gyfranddalwyr rôl hanfodol wrth annog a chynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol byd-eang o safbwynt bod yn fuddsoddwyr hirdymor.

Felly, mae EdenTree yn ceisio pleidleisio ym mhob cyfarfod lle mae gan y cwmni gyfranddaliadau. Ar gyfer daliadau cwmni rhyngwladol, mae EdenTree yn llwyr ddirprwyo'r cyfrifoldeb am ymchwil a phleidleisio drwy ddirprwy i Glass Lewis & Co.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau ac adroddiadau chwarterol y rheolwr ar weithgaredd pleidleisio ar gael ar y wefan ganlynol: https://www.edentreeim.com/insights#screening

3. Bwrw pleidlais

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud ag ystadegau pleidleisio a'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.

Ystadegyn	**EdenTree Responsible and Sustainable Global Equity Fund**
Nifer y daliadau ecwiti	**69**
Cyfarfodydd lle'r oeddem yn gymwys i bleidleisio	**64**
Cyfarfodydd atal gwaredu cyfranddaliadau	**5**
Nifer y marchnadoedd y pleidleisiwyd arnynt	**17**
Nifer y cynigion cymwys	**824**
Nifer y cynigion anghymwys (atal gwaredu cyfranddaliadau)	**59**
Cyfran y penderfyniadau cymwys y pleidleisiwyd arnynt	**100%**
Pleidleisiau o blaid y rheolwyr	**704 – 85%**
Pleidleisiau yn erbyn y rheolwyr	**113 – 14%**
Pleidleisiau wedi'u hymatal	**7 – 1%**
Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un cynnig yn erbyn y rheolwyr	**47**
Pleidleisiau yn groes i argymhelliad y cynghorydd dirprwy	**Amherthnasol**

Ffynhonnell: EdenTree.

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn fodlon gyda lefel bleidleisio'r rheolwr buddsoddi.

4. Gwrthdaro buddiannau'r rheolwr

Gofynnwyd i'r rheolwr a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau yn ymwneud â daliadau yn eu cronfeydd perthnasol, o ran y meini prawf canlynol, dros y cyfnod:

1. Gwrthdaro ymddangosiadol o ran perthynas gyffredinol y cwmni rheoli asedau â'r cleient e.e. mae'r rheolwr yn darparu cynhyrchion neu wasanaethau arwyddocaol i gwmni y mae ganddynt ddaliad bond neu ecwiti ynddynt;

Yn ddiweddar fe wnaethom ni gydnabod y gwrthdaro posibl o fuddsoddi mewn cwmnïau rhestredig fel Hargreaves ac ABN AMRO, sydd hefyd yn gleientiaid i ni. Cofnodwyd hyn yn ein cofrestr gwrthdaro. Ar hyn o bryd yr unig wrthdaro yw pe baem ni'n cael daliad materol lle gallem ddylanwadu ar y broses benderfynu trwy ein hawliau pleidleisio. Er mwyn lliniaru yn erbyn hyn, rydym ni wedi cymryd camau i adolygu a monitro unrhyw ddaliadau lle rydym yn berchen ar fwy na 5% o gyfalaf cyfran bleidlais, gydag unrhyw ddaliad dros y trothwy hwn yn cael ei nodi'n awtomatig yn Charles River. Nid oes unrhyw ddaliad yn agosáu at y trothwy hwn ac o ystyried arferion cyfalafu'r cwmnïau hyn ar y farchnad, nid ydym yn rhagweld y bydd gwrthdaro'n digwydd.

2. Mae gan uwch aelod o staff y cwmni rheoli asedau rolau (e.e. fel aelod o'r Bwrdd) mewn cwmni y mae gan y cwmni rheoli asedau ecwiti neu ddaliadau bond ynddo;

Mae Mark Hews, Prif Swyddog Gweithredol ein Grŵp a Chadeirydd EdenTree yn Gyfarwyddwr Mapfre RE, is-gwmni o Mapfre. Mae'r Responsible and Sustainable Global Equity Fund wedi dal (ac fe allai ddal) cyfranddaliadau yn Mapfre (1.41% yn 31.03.22), mae hyn wedi'i gofnodi yn ein Cofrestr Gwrthdaro ac mae Mark Hews yn ymwybodol os yw'n derbyn unrhyw wybodaeth fewnol, yna bod yn rhaid iddo roi gwybod i EdenTree Compliance er mwyn rhoi'r stoc ar ein rhestr STOP. (Sicrhau na allwn fasnachu yn y warant. Ar 30 Mehefin 2023, mae'r Sustainable Global Equity Fund yn dal 2,200,000 o gyfranddaliadau yn Mapfre (1.3% o'r portffolio ar hyn o bryd).

3. Mae gan staff stiwardiaeth y cwmni rheoli asedau berthynas bersonol ag unigolion perthnasol (e.e. ar y Bwrdd neu ysgrifenyddiaeth y cwmni) y cwmni y mae ganddynt ecwiti neu ddaliadau fond ynddo;

Amherthnasol

4. Sefyllfa lle mae buddiannau gwahanol gleientiaid yn ymwahanu. Gallai trosfeddiannu fod yn enghraifft o hyn, lle mae un set o gleientiaid yn agored i'r targed a set arall yn agored i'r caffaelwr;

Amherthnasol

5. Gwahaniaethau rhwng polisïau stiwardiaeth rheolwyr a'u cleientiaid; ac

Na - mae ein Stiwardiaeth yn faes dirprwyedig ar gyfer y cronfeydd cyfun gyda'n polisi gwrthdaro wedi'i nodi yn yr Adroddiad Cod Stiwardiaeth. Byddai unrhyw wrthdaro posib yn anarferol ac yn cael ei ystyried fesul achos ond ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw enghreifftiau.

6. Unrhyw wrthdaro eraill ar draws unrhyw un o'r daliadau.

Amherthnasol

5. Y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd

Rydym yn diffinio pleidlais arwyddocaol fel un lle mae'r rheolwr buddsoddi wedi gwrthwynebu'r rheolwyr ar gynigion arferol a lle maent wedi cofrestru pleidlais ar gynnig cyfranddaliwr neu strategaeth pontio'r hinsawdd. Isod mae detholiad bach o bleidleisiau arwyddocaol ar gyfer 2022/23.

Cwmni	Dyddiad	Crynodeb	Sut y pleidleisiwyd	Pam yn arwyddocaol	Canlyniad
Hartford Financial Services Group Inc.	**Mai 2022**	**Penderfyniad cyfranddalwyr** **Polisi Newid Hinsawdd; gwarantu**	**O BLAID**	**Roedd y cynnig yn galw am i'r yswiriwr ddatblygu polisi hinsawdd uchelgeisiol ynghylch gwarantu – roeddem yn teimlo bod hwn yn risg sylweddol**	**Pasiwyd y bleidlais o 8.7%**
Microsoft Corp.	**Rhagfyr 2022**	**Penderfyniad cyfranddalwyr** **Risgiau o ddatblygu arfau milwrol**	**O BLAID**	**Roedd y cynnig yn galw am adroddiad i'r risgiau o ddefnyddio technoleg MS yn y fyddin - roeddem yn teimlo bod hwn yn gynnig dymunol**	**Pasiwyd y bleidlais o 10.6%**
Microsoft Corp.	**Rhagfyr 2022**	**Penderfyniad cyfranddalwyr** **Tryloywder Treth**	**O BLAID**	**Roedd y cynnig yn galw am i'r cwmni gyhoeddi adroddiad yn unol â'r Safon Treth GRI – roeddem yn teimlo bod y cynnig yn un teilwng**	**Pasiwyd y bleidlais o 23%**
Salesforce Inc.	**Mehefin 2022**	**Penderfyniad cyfranddalwyr** **Cadeirydd annibynnol**	**O BLAID**	**Roedd y cynnig yn galw am wahanu rolau'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol – roeddem yn teimlo bod y cynnig yn un teilwng**	**Pasiwyd y bleidlais o 34%**
Boston Scientific	**Mai 2022**	**Cyflog Gweithredol**	**YN ERBYN**	**Ystyrir bod y cyflog yn ormodol, gyda chysylltiad gwael â pherfformiad**	**Pasiwyd y bleidlais o 89%**
Trimble Inc.	**Mehefin 2022**	**Archwilwyr**	**YN ERBYN**	**Mae'r archwilwyr wedi gwasanaethu am 37 o flynyddoedd heb dendr – roeddem yn teimlo bod hwn yn ddeiliadaeth ormodol**	**Pasiwyd y bleidlais o 91%**

Ffynhonnell: EdenTree